**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Llywodraeth Cymru
Y Pumed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

14 Tachwedd 2011

Annwyl Weinidog

**Y Bil Lleoliaeth – Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru**

Ar 18 Hydref, gwnaethoch Ddatganiad ysgrifenedig am ddiwygiadau arfaethedig i'r Bil Lleoliaeth. Mae'r diwygiadau yn cyflwyno pwerau i Weinidogion Cymru i drosglwyddo i awdurdodau cyhoeddus Cymru ddirwyon tordyletswydd yr UE a orfodir ar Lywodraeth y DU gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.

Trafodwyd y diwygiadau hyn gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ei gyfarfod ar 31 Hydref. Nododd y Pwyllgor mai cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros geisio'r pwerau hyn yn y Bil yw:

> *'gan mai dyma'r dull deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur o alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys yng Nghymru ar y cyfle cynharaf.'*

Nododd y Pwyllgor ddatganiad Llywodraeth Cymru hefyd:

> *'Nid yw'r diwygiadau hyn sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru drosglwyddo dirwyon i awdurdodau cyhoeddus Cymru yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad…'.*

Wrth ddod i'r casgliad hwn, roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru osod datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30 ond nid oedd yn ofynnol iddi gael cydsyniad y Cynulliad, ar gyfer diwygiadau a ddaw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 29.

Roedd y Pwyllgor wedi synnu, felly, nad oedd eich datganiad yn rhoi unrhyw esboniad ynghylch pam y daeth y Llywodraeth i'r casgliad y daeth iddo mewn perthynas â chymhwysedd yn y maes hwn. Nododd y Pwyllgor fod gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol eang mewn cysylltiad ag awdurdodau

cyhoeddus yng Nghymru. Buaswn yn ddiolchgar, felly, pe gallech, bellach, ddarparu esboniad ynghylch pam y daeth y Llywodraeth i'r casgliad nid oes gan y Cynulliad unrhyw gymhwysedd yn y maes hwn.

Nododd y Pwyllgor hefyd fod Llywodraeth y DU wedi gosod y gwelliannau ar 3 Hydrefa chafodd y Cynulliad ei hysbysu yn eich datganiad ar 18 Hydref. Mae Rheol Sefydlog 20 yn gofyn am ddatganiad ysgrifenedig 'fel rheol' ddim mwy na phythefnos ar ôl cyflwyno neu gymeradwyo gwelliannau. Rwy'n siŵr fasech chi'n cytuno bod y rhybudd cynharaf possibl yn ddymunol oni bai bod yna rhesymau da am beidio.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Prif Weinidog ac at y Cwnsler Cyffredinol er gwybodaeth, ac at y Llywydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes.

Yn gywir

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol